# PWYLLGOR PENODI

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Bryan Owen – Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr Keith Evans, Mrs. Fflur M. Hughes, Vaughan Hughes, Eric Jones, Raymond Jones, T.H. Jones, G.O. Parry MBE, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Dim |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2012 fel rhai cywir.

**YN CODI O'R COFNODION**

**Eitem 4 – Penodiadau Staff – Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**

Llongyfarchwyd Miss Clare J. Williams gan un o'r Aelodau ar gael ei phenodi i swydd Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ond gofynnodd am ragor o wybodaeth ynghylch a oedd amserlen wedi ei phennu i fonitro ymrwymiad Miss Williams i wella ei sgiliau iaith Gymraeg a holodd hefyd pwy fyddai'n gyfrifol am gyflawni'r dasg honno yn yr Awdurdod.

Yn ei hymateb dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod llythyr wedi ei anfon at yr ymgeisydd llwyddiannus ond nad oedd yr ohebiaeth yn dweud sut y byddai'r monitro hwnnw'n digwydd. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelod y byddai'r mater yn cael ei godi gyda'r Pennaeth Gwasanaeth Adnoddau Dynol ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r Aelod dan sylw.

**3 CAU ALLAN Y WASG**

Dan Adran (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cafodd y wasg a'r cyhoedd eu hanfon allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni ym Mharagraff 12y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

**4 ADOLYGU STRWYTHUR PENAETHIAID GWASANAETH**

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr - mai rhan allweddol o'r Cynllun Trawsnewid oedd adolygu strwythur Penaethiaid Gwasanaeth yn unol â'r blaenoriaethau sy'n codi o'r Cynllun a'r ffordd y byddai'n rhaid i'r Cyngor weithredu i gyflawni'r blaenoriaethau hynny dros dymor y Cyngor nesaf ar ôl Mai 2013.

Ailddylunio'r Strwythur Penaethiaid Gwasanaeth oedd cam nesaf y broses. Roedd yr adroddiad yn nodi'r achos dros newid, egwyddorion dylunio, ystyriaethau allweddol, y strwythur arfaethedig newydd (gyda rhesymeg), a manylion ynghylch gweithredu'r Strwythur newydd ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth.

Esboniodd y Prif Weithredwr i’r Pwyllgor fod y cyfarfod hwn wedi ei drefnu fel cyfle i’r Aelodau wneud sylwadau ar gynnwys yr adroddiad drafft. Yn dilyn yr adroddiad heddiw, bwriedir cynnal cyfarfod arall o’r Pwyllgor Penodi mewn pythefnos i roi sylw i ddogfen ddiwygiedig, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a godir heddiw.  Y bwriad felly oedd i’r Pwyllgor hwn wneud argymhelliad ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a gynhelir ar 15 Ebrill, a fyddai wedyn yn gwneud argymhelliad ar gyfer Cyfarfod Arbennig o’r Cyngor Sir ar 16 Ebrill 2013.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad drafft a nodi hefyd y bydd adroddiad terfynol yn nodi’r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod heddiw yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Penodi mewn cyfarfod yn gynnar ym mis Ebrill.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3:25 p.m.

**Y CYNGHORYDD BRYAN OWEN**
**CADEIRYDD**